

'Golau ar y Gorffennol': Ymchwilio i Deuluoedd Cymreig a'u harchifau, c.1500-1850

- Neuadd Gloddaith (Coleg Dewi Sant), ger Llandudno -
Awst 23ain, 2011

Cynhaliwyd y symposiwm undydd hwn dan nawdd y Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar yn un o'r tai bonedd mwyaf trawiadol sy'n goroesi o'r Cyfnod Modern Cynnar yng Nghymru. Fforwm ydoedd ar gyfer ystod eang o gyflwyniadau 'astudiaethau achos' yn ymwneud ag astudio teuluoedd Cymreig a'u harchifau yn y cyfnod modern cynnar. Cafwyd cyflwyniadau ym meysydd Hanes, Llenyddiaeth, Ysgrifennu Creadigol ac Astudiaethau Gwybodaeth yn ogystal â'r siaradwr gwadd, Miles Wynn Cato, masnachwr celf annibynnol sy'n arbenigo mewn portreadau o'r bonheddwyr Cymreig a gweithiau celf sy'n ymwneud â thair ac ystadau Cymreig. Bu siaradwyr yn ystyried yr hyn yw archif deuluol Gymreig ac yn awgrymu ffyrdd o ystyried a defnyddio'r amrywiol eitemau yn y casgliadau hyn. Roedd y digwyddiad yn 'agored i bawb' a chafwyd cynulleidfa fawr, yn cynnwys academyddion, aelodau o gymdeithasau hanes lleol ac aelodau o'r cyhoedd a oedd yn ymddiddori yn y pwnc.

Cychwynnwyd y trafodaethau, yn briodol iawn, gan yr Arglwydd Mostyn y bu ei gyndeidiau yn byw yn y tŷ am ganrifoedd. Cafwyd ychydig o sylwadau agoriadol ganddo cyn i Dr. Gwen Saunders Jones (Prifysgol Bangor) draddodi'r papur cyntaf. Canolbwyntiodd ar fywyd a gweithiau'r bardd Alis ferch Gruffudd (fl. 1540-70), merch ifanc a oedd yn barddoni yn y Gymraeg ac a feddai ar gymeriad barddol unigryw ac annibynnol. Ystyriwyd cyd-destun ehangach barddoniaeth Alis yn cynnwys dylanwadau'r teulu a datblygiadau crefyddol a diwylliannol. Rhoddodd Shaun Evans, (Prifysgol Aberystwyth), gyflwyniad yn canolbwyntio ar yr herodraeth sydd wedi goroesi ym mhensaerniaeth neuadd Gloddaith o'r unfed ganrif ar bymtheg. Un o'r pwyntiau pwysicaf a bwysleisiwyd gan y siaradwr oedd fod lluniau ac eitemau yn ogystal â geiriau yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd y byddai'r bonedd yn eu mynegi'u hunain ac y dylid, o ganlyniad, eu hystyried yn nodweddiadol pwysig o archifau teuluol. Parhau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd diwylliant gweledol a deunyddiau a wnaeth Miles Wynn Cato yn ei gyflwyniad llawn darluniau yn dwyn y teitl 'Welsh paintings as historical evidence'. Yn yr un modd, yn ei chyflwyniad a seiliwyd ar bapurau ystad Aberglasne a'r perchennog Thomas Philipps, bu Dr. Lowri Rees (Prifysgol Bangor) yn ystyried enghreifftiau o 'dreuliant amlwg' a'i berthynas â symudolrwydd cymdeithasol yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif.

Traddododd Dr. Julie Mathias o'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, bapur defnyddiol iawn yn ymwneud â chryfderau a pheryglon defnyddio cynorthwyon chwilio ar gyfer archifau teuluol ac ystadau, gan ddefnyddio Casgliad Cefnbryntalch/Buckley Jones – sydd wedi'i leoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – fel enghraifft. Ni fedrodd Dr Rhys Morgan (Prifysgol Caerdydd) ddod i'r digwyddiad ei hun ond fe anfonodd bapur yn canolbwyntio ar Achau'r teyrnleiddiad Cyrnol John Jones o Faesygarneidd (c. 1597 – 1660). Dadansoddwyd yr achres hon, dyddiedig Ionawr 1650, i

herio'r farn draddodiadol am Jones fel penboethyn gweriniaethol, chwyrn ei wrthwynebiad i'r frenhiniaeth a ddinoethwyd o'i hunaniaeth Gymreig.

Bu'r panel terfynol yn ystyried profiadau menywod a reolwyd, a effeithiwyd ac a gynrychiolwyd gan ddywion o Gymry yn ystod y ddeunawfed ganrif hir. Rhoddodd Marian Gwyn (Prifysgol Bangor) bapur cyfareddol ac emosiynol yn canolbwyntio ar archif Penrhyn a hanesion am brofiadau caethweision o ferched yn y planhigfeydd siwgwr yn India'r Gorllewin a oedd yn eiddo i'r ystad hon o Gymru. Bu Elin Ifan, ysgolhaig annibynnol, yn ystyried y rolau cyflenwol sydd i ddeunyddiau archif a 'dychymyg byw' mewn ysgrifennu creadigol, drwy gyfrwng sgwrs yn frith o hanesion a seiliwyd ar ei hynafwyr ei hun yn y ddeunawfed ganrif. Mary Chadwick (Prifysgol Aberystwyth) a draddododd bapur olaf y dydd, gan ystyried tair cerdd o archif Griffiths o'r Garn yng nghyd-destun y mathau o ferched a welir yn y casgliad a'r heriau o weithio gyda cherddi llawysgrif nad oes enwau awdurdon ar eu cyfer.

Noddwyd y digwyddiad, yn garedig iawn, gan y Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Goleg Dewi Sant ac Ystadau Mostyn am ganiatáu i ni ddefnyddio neuadd Gloddaith yn rhad ac am ddim. Cymdeithas Astudiaethau'r Dadeni a ariannodd y bwrsariaethau uwchraddedig a gynigiwyd.

Mary Chadwick a Shaun Evans

Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Prifysgol Aberystwyth